| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **EBRILL 16 2013** |
| **TEITL:** | **CYFRIFIAD 2011: SEMINAR SEFYLLFA'R GYMRAEG YNG NGWYNEDD** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CEFNDIR

1.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar Ionawr 17 2013, cafwyd adroddiad ar ganlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2011. Erbyn hyn, cyhoeddwyd data ar yr iaith Gymraeg i lefel ward, ac i godi ymwybyddiaeth o hyn ymysg Aelodau etholedig ac i hyrwyddo trafodaeth o'r goblygiadau, trefnwyd seminar ar eu cyfer er mwyn cyflwyno'r dystiolaeth a rhoi cyfle i drafod y sefyllfa a'r ymateb ar lefel lleol.

1.2. Cynhaliwyd y Seminar yn y Ganolfan ym Mhorthmadog ar Fawrth 20 2013.

## 2. Y SEMINAR

2.1. Cafwyd cyflwyniadau gan Arweinydd y Cyngor a gan Rheolwr Gwybodaeth ac Ymchwil y Cyngor. Ar ôl cyflwyniad i ddata'r Cyfrifiad ar lefel cenedlaethol, sirol a dosbarth, cafwyd trafodaethau ar gyfer Arfon, Dwyfor a Meirionnydd wedi'u hwyluso gan Swyddogion a chydag aelod o'r Uned Ymchwil Corfforaethol yn cynorthwyo gyda dadansoddiad o'r ffigyrau.

2.2. Roedd y trafodaethau'n seiliedig ar ddau gwestiwn: "Beth sydd wedi newid neu beidio ers 2001?" a "Beth sydd i gyfrif am hyn?" Bu hyn yn gyfle i'r Aelodau drafod y sefyllfa yn eu wardiau ac i gynnig dadansoddiad o'r newidiadau ynghyd ag adnabod blaenoriaethau at y dyfodol.

2.3. Yn dilyn o gyflwyniad y Rheolwr Gwybodaeth ac Ymchwil, ymddengys mai'r prif ffactorau tu ôl i'r newid yw:

- Mudo
- Yr Economi
- Polisi Addysg
- Polisi Cynllunio
- Defnydd o'r Iaith

Gwelwn o’r trafodaethau, fod yr un themâu’n codi ar draws y 3 grŵp:

- Defnydd o’r iaith a’r hyder i’w defnyddio
- Patrymau mudo ac allfudo
- Rôl ysgolion ac addysg i hyrwyddo’r iaith
- Materion tai a chynllunio
- Codi ymwybyddiaeth o’r iaith Gymraeg
- Dylanwadu ar gyrff eraill.

2.4. Ceir crynodeb o’r trafodaethau yn Atodiad 1

## 3. CAMAU NESAF

3.1. Wrth i fwy a mwy o wybodaeth o’r Cyfrifiad gael ei gyhoeddi, mae’n hanfodol bwysig ein bod yn parhau i ddadansoddi a sicrhau fod yr Aelodau’n rhan greiddiol o’r broses yma. Derbynnir yn ogystal fod gan yr Aelodau rôl allweddol bwysig i’w chwarae o fewn eu wardiau fel hyrwyddwyr a phencampwyr yr iaith Gymraeg.

3.2. Bwriedir datblygu ac ehangu’r gwaith yma drwy’r cyrff sy’n dilyn y Pwyllgorau Ardal, lle ceir rhagor o gyfle i’r Aelodau drafod ac adnabod y blaenoriaethau a’r ymatebion ar lefel lleol.